# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2:00 y.h., DYDD MAWRTH, 25AIN MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

**(am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679665**

**iwanedwards@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 17 Mawrth 2025)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Rob Triggs

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Coun Robert Williams | Barmouth Town Council |
| Dr John Smith | Meirionnydd Yacht Club |
| Sedd wag | Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion |
| Mark James | Royal National Lifeboat Insitution |
| Sedd wag | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Ashley Field | Three Peaks Yacht Race |
| Robert Aeron Williams | Barmouth Resort Improvement Group |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| Councillor Matthew Harris | |
| Ian Sadler | |
| Cynghorydd Brian Woolley | |
| Peter Appleton | |
| Stephen Tudor | Cynrychioliydd Pwyllgor Harbwr Pwllheli |
| Desmond George | Cynrychiolydd Pwyllgor Aberdyfi |
| June Jones | Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absendoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. COFNODION

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar y 22 o Hydref 2024.

## 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 4 - 11

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 5. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

I ystyried y materion canlynol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol:

- Parth gwahardd cychod dŵr yn yr harbwr ar gyfer nofio a padlfyrddio.
- Cynnig am lithrfa gyferbyn a'r man storio cychod i gael mynediad i'r traeth.

## 6. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar y 21 Hydref 2025

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 22/10/2024

**Presenoldeb:**

**Aelodau:**
Cynghorydd Rob Triggs (Cadeirydd), Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd), Cynghorydd Louise Hughes, Mark James (Cymdeithas y Bad Achub) a'r Cynghorydd Robert Cadwaladr Williams (Cyngor Tref Abermaw)

**Swyddogion:**
Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Arthur F. Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Daniel A. Cartwright (Harbwrfeistr Abermaw) Kane Arran Triggs (Harbwrfeistr Cynorthwyol Abermaw) a Sioned Mai Jones a Iwan Edwards (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth) ac E Mererid Watt (Cyfeithiydd)

**Hefyd yn bresennol:** Desmond George (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Rob Triggs yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024/25

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2024/25

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd June Jones (Cynrychiolydd Pwyllgor Harbwr Porthmadog), Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned) a Robert Aeron Williams (BRIG – Grŵp Gwella Cyrchfannau Abermaw). Gadawodd Kane Arran Triggsl y cyfarfod yn gynnar i fynychu digwyddiad cymorth cyntaf.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ond hysbysodd y Cadeirydd er gwybodaeth yn unig fod ei fab, Kane Triggs, yn Harbwrfeistr Cynorthwyol yn Harbwr Abermaw.

5. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2024 fel rhai cywir.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwrfeistr**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod a cychwynnwyd gydag Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod**

Cadarnhawyd bod 77 cwch wedi eu cofrestru yn 2024 o'i gymharu â 71 yn 2023, a gobeithiwyd y bydd y cynnydd yn parhau flwyddyn nesaf. Adroddwyd bod y rhan fwyaf wedi eu cofrestru ar-lein, sef 1,013 o gychod pŵer a 1,044 o gychod dŵr personol. Yn ychwanegol, cofrestrwyd 84 o gychod gyda injan o dan 10hp sydd yn rhoi cyfanswm o 2,141 o gychod. Nodwyd bod y nifer yma yn llai na'r 2,509 a gofrestrwyd flwyddyn diwethaf. Credwyd fod hyn wedi'i achosi oherwydd y tywydd gwael yn ystod yr haf a'r sefyllfa ariannol bresennol.

**Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Cadarnhawyd bod Harbwr Abermaw yn cydymffurfio a'r gofynion, a petai gan unrhyw un sylwadau ar y Cod, bod modd iddynt hysbysu'r Uwch Swyddog Harbyrau neu swyddogion yr harbwr.

**Materion Staff**

Cadarnhawyd nad oedd unrhyw newid wedi bod yn y sefyllfa staffio, ond bod yr Harbwrfeistr a'r Harbwrfeistr Cynorthwyol wedi bod yn helpu yn Harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi.

Cadarnhaodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ei fod yn ymddeol ym mis Mawrth 2025. Nodwyd fod ei swydd wedi cael ei hysbysebu gyda gobaith apwyntio Uwch Swyddog Harbyrau newydd cyn cyfnod y Nadolig. Diolchwyd i'r pwyllgor a i'r Cadeirydd am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd

Diolchwyd i'r Uwch Swyddog Harbyrau am ei waith caled dros y blynyddoedd

**Materion Ariannol: Sefyllfa Ariannol Harbwr Abermaw**

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ar y gyllideb gan grynhoi o dan y prif benawdau. Adroddodd bod y ffigyrau yn seiliedig ar gyfarfod gyda y Swyddogion Cyllid ar ddechrau mis Medi, oedd yn dangos gwir-wariant am bum mis ac yna yn proffwydo gwariant ar gyfer Medi 2024 i Fawrth 2025. Nodwyd ei fod yn anodd proffwydo'r holl wariant a bod materion megis tywydd garw yn medru effeithio ar y ffigyrau.

Gweithwyr - gorwariant o ychydig dros £1,000 oherwydd costau goramser gan fod staff wedi bod yn rhoi cymorth yn y safleoedd eraill.
Eiddo - gorwariant o £378 oherwydd costau cynnal a chadw adeilad yr harbwr.
Trafnidiaeth - gorwariant o £29 – mae'r ffigwr yn cynnwys tanwydd i'r cwch ond nid yw hyn yn cynnwys cyllideb am wasanaethu'r gwch. Nodwyd bod y ffigwr fel ag y mae oherwydd bod y cwch wedi bod allan llai oherwydd y tywydd gwael dros yr haf.
Gwasanaethau a chyflenwadau – gorwariant o £7,000 – mae hyn yn cynnwys offer a chelfi, costau contractwr ac offer iechyd a diogelwch. Adroddwyd eu bod wedi gorfod talu costau i wasanaethu peiriannau'r cychod i wneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio gyda'r cod. Hefyd, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod costau pellach megis

talu i gynnal a chadw'r angorfeydd a'r cymhorthion mordwyo, buddsoddi mewn drôn a dillad diogelwch newydd. Yn ogystal â hyn, nododd fod cwch 'Lady Anne' wedi cael ei symud o Bwynt Penrhyn yn y misoedd diwethaf a bod hyn wedi cynyddu costau. Y gobaith yw eu bod yn cael ad-daliad am y gost o symud y cwch.

O ran y cyfanswm gwariant, adroddwyd eu bod yn rhagweld y gwariant i fod ychydig dros £98,000. Nodwyd, fel sy'n cael ei ddangos yn yr adroddiad, bod y gwasanaeth yn proffwydo y bydd cyfanswm gwariant yn £118,634, ond bod £12,000 o'r gronfa yn cael ei dynnu o'r ffigwr yma sydd yn rhoi ffigwr o £106,000. Felly, nododd fod gorwariant oddeutu £8,000.

O ran yr incwm, cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi cyrraedd ac wedi mynd dros y targed incwm. Nodwyd eu bod yn proffwydo incwm o £42,500, o gwmpas £2000 dros y targed. Cyfeiriwyd hefyd at y posibilrwydd o ychwanegu ar yr incwm o'r ad-daliad am symud cwch 'Lady Anne' a fydd yn eu gwthio hyd yn oed ymhellach dros y targed. O ystyried fod y tywydd ddim wedi bod yn ffafriol dros yr haf, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ei fod yn glod ac yn destament i'r staff eu bod wedi llwyddo i gyrraedd y targed incwm. Soniwyd bod sawl rheswm yn egluro sut mae'r harbwr wedi mynd dros y targed incwm. Nododd mai brif ffynhonnell incwm yw'r angorfeydd ac mae'r niferoedd wedi cynyddu flwyddyn yma. Hefyd, mae'r harbwr yn gwerthu disel ac mae niferoedd o ymwelwyr i'r harbwr wedi cynyddu.

O ran costau rhedeg yr harbwr, nodwyd fod nod costau o £57,500 ond eu bod yn rhagweld y bydd y costau yn uwch sef £64,000. Nododd bod hyn yn orwariant o £6,000, ond gall gael ei haneru os cant yr ad-daliad.

**Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor:**

Mynegwyd gwerthfawrogiad a diolchwyd i holl staff yr harbwr am eu gwaith caled dros yr haf. Gan gymryd i ystyriaeth y tywydd garw maent i'w llongyfarch.

.

**Ffioedd a Thaliadau**

Nododd bod prin i'w ddweud am y ffioedd a thaliadau gan mai dim ond newydd orffen mae'r tymor, ac felly fydd y pwnc yma yn cael mwy o ystyriaeth dros y misoedd nesaf. Cadarnhawyd y bydd taflen benderfyniad yn cael ei wneud a'i anfon ymlaen i'r arweinydd portffolio. Erbyn y cyfarfod nesaf yn y gwanwyn bydd y gwasanaeth mewn sefyllfa gwell i gadarnhau beth fydd y ffioedd.

**Holiaduron Adborth**

Soniwyd bod holiadur adborth wedi ei greu ar safle we y cyngor a bod nifer o arwyddion o gwmpas yr harbwr gyda chod QR i fynd i'r safle. Nododd bod pobl yn gallu sganio'r cod QR i fynd i'r safle we i gwblhau'r holiadur a rhoi barn am eu profiad o'r harbwr. Nododd bod 86% o ymatebwyr wedi dweud bod eu profiad nhw yn 'dda iawn' neu yn 'dda', a dim un wedi dweud 'gwael'. Yn ychwanegol, nodwyd bod blwch yn yr holiadur i dderbyn unrhyw sylwadau ychwanegol a bod nifer o bobl yn dweud bod y staff yn mynd allan o'i ffordd i helpu, yn wybodus a bod y gofal cwsmer yn wych yn Harbwr Abermaw.

**Sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor**

Llongyfarchwyd staff yr harbwr am eu gwaith a nododd mai'r adborth sy'n ael ei dderbyn yw bod y staff yn gymwynasgar iawn ac yn gwneud swydd dda. Mynegwyd

awydd i'r neges fynd drwodd i Gabinet Cyngor Gwynedd bod Harbwr Abermaw yn costio ychydig iawn i'w redeg ond yn denu llawer o arian i economi Abermaw.

**Materion Mordwyo**

Adroddodd Harbwrfeistr Abermaw bod y sianel mordwyo wedi aros yn gymharol gyson dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fodd bynnag bod y sianel eilaidd, sydd yn arwain i mewn i'r harbwr, i'w weld yn llenwi gyda thywod sydd yn cael ei chwythu gan y gwynt. Eglurwyd fod hyn yn creu problemau i gychod sy'n dynesu at wal yr harbwr.

Adroddwyd fod mynediad o dan y bont bellach ar agor gan fod y gwaith ar y bont reilffordd wedi ei gwblhau ac mae'r arwyddion a osodwyd llynedd wedi eu tynnu lawr.

Soniwyd eu bod wedi sylwi nad yw cychod sydd yn mynd mewn i'r harbwr wedi rhoi eu radio VHF ymlaen ar sianel 12 ac heb rhoi eu manylion cyswllt cyn dod i mewn i'r harbwr. Er mwyn gwella diogelwch o fewn y harbwr, pwysleisiodd yr Harbwrfeistr ei bod yn bwysig atgoffa pobl i wneud hyn.

**Materion Gweithredol**

Adroddodd yr Harbwrfeistr ei fod wedi darganfod ar y 29ain o Hydref, dau gwch o dan ddŵr oherwydd eu bod wedi troi drosodd. Noddodd fod y gwynt yn chwythu o'r de dwyrain sydd ddim yn digwydd aml ac felly roedd y cychod wedi eu gorchuddio gan y tonnau. Ar yr un noson, nododd ei fod wedi llwyddo i sicrhau dau gwch oedd wedi torri eu hangorfa.

Nodwyd bod cynnydd i'w weld mewn cychod yn ymweld a'r harbwr eleni ac bod adborth gwych wedi ei dderbyn gan lawer o bobl sydd wedi ymweld a'r harbwr.

Cyn dechrau cyfnod yr haf, nodwyd fod injans ar gwch pŵer yr harbwr wedi cael eu gwasanaeth blynyddol a gafodd ei wneud gan beiriannydd morol lleol. Mae'r cwch hefyd wedi cael ei beintio.

Adroddwyd fod staff yr harbwr yn parhau i rifo bwiau angori sydd yn cynyddu gyda chynnydd yn y nifer o gwsmeriaid sydd ar angorfa.

O ran gweddill y gwaith cynnal a chadw, nododd yr Harbwrfeistr bod gwaith cynnal yn cael ei gwblhau gan staff yn wythnosol ac mae unrhyw eitemau sydd angen sylw brys yn cael eu blaenoriaethu.

Cyfeiriwyd at ffordd y compawnd a bod yr harbwr wedi buddsoddi yn ddiweddar mewn rhwystr awtomatig. Yn 2023, nodwyd bod rhwystr ym mhob bae parcio unigol i atal pobl rhag parcio yno. Blwyddyn yma, mae'r rhwystr trydan yn gweithio yn well ac mae adborth positif iawn wedi ei dderbyn gan ddefnyddwyr. Yn ogystal, mae camerâu CCTV wedi eu gosod o amgylch yr harbwr; mae hyn hefyd wedi derbyn adborth cadarnhaol.

Adroddwyd fod pontŵn yr harbwr yn dal i gael ei gynnal a chadw ond bod bwriad i'w symud yn ôl i'r harbwr flwyddyn nesaf, cyn dechrau'r tymor prysur.

Cyfeiriwyd at gwch 'Lady Anne' oedd ym Mhwynt Penrhyn a nodwyd fod y cwch wedi bod yna am nifer o flynyddoedd oherwydd trafferth i gael gwared arno. Soniwyd eu bod wedi gofyn i berchennog y cwch i'w symud ond yn anffodus nid oedd hynny wedi digwydd. Felly, mae'r harbwr wedi symud y cwch o dan y ddeddf statudol ac yn ceisio cael ad-daliad o'r costau hynny.

I gloi, cyfeiriwyd at y digwyddiadau sydd wedi bod yn digwydd o gwmpas yr harbwr gan fynegi balchder bod llawer o ddigwyddiadau wedi dychwelyd i Abermaw eleni a phopeth i weld yn mynd yn dda o ran y trefniadau. Diolchwyd i Gyngor tref Abermaw a sefydliadau preifat am eu gwaith da yn helpu i drefnu'r holl ddigwyddiadau.

**Sylwadau'r gan Aelodau'r Pwyllgor**

Nodwyd fod Cyngor Tref Abermaw angen eu diolch hefyd am yr holl ddigwyddiadau maent yn eu cefnogi sydd yn dod a llawer o arian i mewn i'r dref.

Diolchwyd i Gynghorydd Tref Abermaw am ailgyflwyno carnifal y dref a fu'n llwyddiannus iawn flwyddyn diwethaf, a gobeithiwyd fydd hyn yn parhau flwyddyn yma.

Diolchwyd hefyd i swyddogion yr harbwr am symud cwch 'Lady Anne' a gobeithiwyd y byddent yn derbyn ad-daliad am y costau.

Gofynnwyd cwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â beth fydd yn digwydd os bydd perchennog y cwch 'Lady Anne' yn gwrthod talu'r costau symud. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol fod yr anfoneb wedi cael ei yrru y dyddiau diwethaf ac felly nid yw'n siŵr os yw'r perchennog wedi ei dderbyn hyd yma. Nododd fod gweithdrefnau mewn lle os nad yw'n barod i dalu'r ddyled.

Tynnwyd sylw gan y Cadeirydd i'r sianel mordwyo a'r tywod sydd yn cael ei symud ar y traeth gan adran YGC. Nodwyd fod y tywod yma'n cael ei chwythu drosodd i'r sarn a gofynnwyd os y dylai YGC gael golwg ar hyn i weld os gallent fynd i'r afael a'r mater.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ei fod yn cael cyfarfodydd misol gyda adran YGC ac felly mi wneith siarad gyda swyddog priodol am y mater yma.

Pwysleisiodd Cynghorydd Tref Abermaw fod ymrwymiad YGC i symud y tywod o'r twll dwywaith y flwyddyn yn annigonol. Nododd fod y tywod bron ar ben y wal gynnal ar hyn o bryd ac yn chwythu ar draws i'r ffordd a'r promenâd. Soniodd ei fod wedi siarad â nifer o bobl sydd wedi bod yn cwyno am hyn. Cydnabuwyd fod YGC yn glanhau'r lon dwywaith y flwyddyn ond fod hyn ddim yn ddigonol.

Atebwyd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol ei fod yn derbyn fod y tywod sydd yn cael ei chwythu drosodd i'r lon yn broblem ac mi wneith drafod hyn gyda swyddogion o YGC yn y cyfarfod misol nesaf.

**7. MAERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**Aelodaeth**

Cyfeiriwyd at y cyfarfod blaenorol ac at argymhelliad y cyfarfod yno i drio cynyddu niferoedd y pwyllgor yn ogystal â angen i gael cynrychiolaeth fwy cynhwysfawr. Nodwyd ei fod yn edrych yn debyg nad yw'r pwyllgor yn derbyn ymateb gan grwpiau lleol i wella niferoedd y pwyllgor. Sylwodd y Cadeirydd fod sedd wag yn Gymdeithas Pysgota Bae Ceredigion oherwydd na fydd yr Aelod Cyfetholedig John Johnson yn medru cynrychioli rhagor oherwydd materion iechyd. Nododd fod Glen Barnish yn hapus i gymryd drosodd y sedd yma ac felly'r gobaith yw ei fod yn mynychu'r cyfarfod nesaf. Nododd fod sedd wag arall yn Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw a'i fod yn cael trafferth darganfod rhywun arall i lenwi'r sedd. Cytunwyd i'r Cadeirydd gael trafodaeth gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a'r Uwch Swyddog Harbyrau ynglŷn â cheisio cynyddu niferoedd y pwyllgor.

Awgrymodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned efallai y byddai'n werth ail edrych ar ffin ardal yr harbwr i weld os oes cyfle i ddod ag aelodau o'r Cyngor i mewn. Nododd ei fod yn awyddus i gynnwys gymaint o sefydliadau sydd efo diddordeb yn yr harbwr yn y pwyllgor.

## 8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

25 Mawrth 2025

Dechreuodd am 2:00yp a daeth i ben am 3:05yp

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **25 Mawrth 2025** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Fel y llynedd, bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sy'n dymuno cael angorfa yn harbwr Abermaw, cafwyd ymholiadau rheolaidd dros gyfnod y gaeaf. Gobeithiwn weld mwy o gychod yn Aberamffra a hefyd yn y prif harbwr.

2.2 Mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno cofrestru eu badau dŵr pŵer i'w defnyddio ar hyd arfordir Gwynedd bellach yn gwneud hynny ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Bydd y system ar-lein ar gael o 1 Ebrill ymlaen i gwsmeriaid ailgofrestru eu hangorfeydd a'u badau pŵer. Os oes angen unrhyw help i gwblhau'r broses hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Morwrol.

2.3 Mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen yn obeithiol at gyfnod prysur yr haf eleni ac y bydd cwsmeriaid yr harbwr ac ymwelwyr yn mwynhau eu hamser yn amgylchedd yr harbwr.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn yr amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd ac i

dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Hoffai'r Gwasanaeth gyhoeddi y bydd yr Uwch Swyddog Harbwr, Mr Arthur Francis Jones yn ymddeol ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Hoffem ddiolch i Arthur am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i'r Adran Forwrol dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae Arthur wedi creu sylfaen gref i'r Gwasanaeth barhau â'i ddatblygiad a'i ymrwymiad i arfordir Gwynedd. Rydym yn dymuno'r gorau iddo yn ei ymddeoliad.

4.2 Bydd Mr Daniel Cartwright yn cymryd lle Mr Jones, sef cyn-Harbwr Feistr Harbwr Abermaw. Mae Daniel wedi mwynhau ei amser yn harbwr Abermaw dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan greu sawl cyfeillgarwch am oes. Ar ôl proses ymgeisio a chyfweld lwyddiannus, cafodd ei ddewis i fod yn Uwch Swyddog Harbwr newydd, ac mae'n edrych ymlaen at oruchwylio datblygiad yr holl harbyrau y mae'r Gwasanaeth Morwrol yn eu rheoli.

4.3 Mae Mr Kane Triggs bellach wedi'i benodi yn Harbwr Feistr newydd Harbwr Abermaw yn dilyn proses ymgeisio a chyfweld lwyddiannus arall. Dechreuodd Kane ar ei ddyletswyddau ym mis Rhagfyr, ac o bosibl ef yw'r Harbwr Feistr ieuengaf yn y DU, sy'n dangos ei fod o flaen ei amser o ran aeddfedrwydd a gwybodaeth. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygiad Kane a'r Harbyrau.

4.4 Rydym yn falch o gyhoeddi bod swydd yr Harbwr Feistr Cynorthwyol hefyd wedi'i llenwi'n ddiweddar. Ar ôl ei hysbysebu ar ddechrau mis Chwefror, cawsom nifer o ymgeiswyr ar gyfer y rôl a lluniwyd rhestr fer a chynhaliwyd chyfweliadau. Bu Ms Lois Roberts yn llwyddiannus gyda'i chais a bydd yn dechrau gyda'r Gwasanaeth ar 1 Ebrill.

**5. Materion Eraill**

Yn dilyn trafodaethau gyda YGC, gallaf roi diweddariad byr i chi am y Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd yn Viaduct Gardens.

| | |
|---|---|
| **Tan y Pasg** | Bydd gwaith arwynebu'r briffordd yn parhau. |
| **Y Pasg** | Llai o gyfyngiadau, bydd goleuadau'n cael eu hadolygu ar sail dreigl, bydd gwaith yn parhau ar y gerddi. |
| **Canol Ebrill-Gorffennaf** | Gwaith yn dechrau ar wal y môr, pentyrrau o ddalennau rhychog |
| **Gorffennaf** | Dad-weithredu compownd y safle, adfer rhywfaint o fynediad i Viaduct Gardens yn ystod cyfnod yr haf. |
| **Medi** | Gwaith i ddechrau ar 'Set Back Wall', ail-gyflwyno goleuadau**.** |

**6. Materion Ariannol.**

6.1 Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

6.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd.
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr.
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr, gan gynnwys buddsoddiad i gynnal a chadw'r cwch er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer.

- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau.

6.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2025/26.**

O ran y darpar ffioedd a thaliadau ar gyfer Harbwr Abermaw ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2025/2026, ar achlysuron blaenorol mae'r Gwasanaeth wedi addasu ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol ar y pryd. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ni wnaed unrhyw benderfyniad eto o ran lefel y ffioedd a fydd yn cael eu codi'r tymor nesaf.

**7. Adroddiad yr Harbwr Feistr.** Bydd Harbwr Feistr Abermaw yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2024 a mis Mawrth 2025, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW |
| **DYDDIAD** | 25 Mawrth 2025 |
| **TEITL** | ADRODDIAD YR HARBWR FEISTR |
| **AWDUR** | HARBWR FEISTR ABERMAW |

**H1 Materion Mordwyo**

**1.1** Drwy gydol cyfnod y gaeaf, mae'r Gwasanaeth wedi monitro'r Cymhorthion Mordwyo a'r sianel Fordwyo i sicrhau bod modd Llywio yn ddiogel i mewn ac allan o Harbwr Abermaw.

**1.2** Bydd staff yr harbwr yn parhau i fonitro symudiad y banciau tywod yn y sianel Fordwyo ac yn gwneud unrhyw newidiadau i gymhorthion mordwyo llaw ar ochr y porthladd/starbord lle bo'r angen.

**1.3** Bydd Cymhorthion Mordwyo rhif 4, rhif 6 a rhif 10 yn cael eu gwasanaethu'r gaeaf hwn, yr un fath â bwi'r Sianel Fordwyo.

**1.4** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae gennym dri N i M ar waith ar gyfer yr isod;

- Marc Llaw Porthladd Rhif 6 oddi ar ei safle priodol – I'w ddychwelyd i'r safle CGAPH
- Golau South Cardinal (Perch) ddim yn gweithio
- Golau Bwi'r Sianel Fordwyo Ddim yn Gweithio

**1.5** Bydd Golau newydd ar gyfer y marc South Cardinal yn cyrraedd y gwasanaeth ar ddechrau mis Ebrill, a bydd yn cael ei leoli cyn gynted â phosibl.

**1.6** Yn ystod misoedd y gaeaf, mae'r gwasanaeth wedi sylwi eto bod y sianel agosaf at wal yr Harbwr wedi cael ei heffeithio gan dywod wedi'i chwythu gan wynt. Mae hyn yn achosi i silt yn y sianel gynyddu gan achosi anawsterau i gychod sy'n gadael ac yn dychwelyd i'r Harbwr ar lanw isel. Gofynnir i gychod ffonio swyddfa'r Harbwr cyn nesáu at wal yr Harbwr.

**1.7** Rydym wedi gweld sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf lle bu cyswllt â chwch yn gyfyngedig oherwydd nad oedd radios VHF ymlaen gan forwyr. Atgoffir morwyr o'r angen i sicrhau bod eu radios VHF ymlaen ar CH12 yn ystod eu harhosiad yn Harbwr Abermaw ac i gysylltu â swyddfa'r harbwr cyn gadael neu gyrraedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fordwyo a'r tywydd.

*Bydd y lleoliadau siartredig diweddaraf yn cael eu darparu gyda'r adroddiad hwn.

**H2 Materion Gweithredol**

**2.1** Defnyddiwyd 'Powercat' yr harbwr yn aml y tymor diwethaf, ac mae wedi cael ei wasanaeth a'i archwiliad blynyddol i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y tymor sydd i ddod.

**2.2** Mae'r Cerbyd Patrolio Morwrol hefyd wedi cael ei ddefnyddio lawer dros y gaeaf ac mae'n gweithio'n dda ar ôl cael ei atgyweirio'r tymor diwethaf.

**2.3** Mae'r Gwasanaeth yn Abermaw wedi bod yn defnyddio'r CFMOTO UTV yn rheolaidd ers iddo gyrraedd Abermaw, mae wedi cael ei ddefnyddio i gyrraedd ardaloedd na all y cerbyd patrolio rheolaidd eu cyrraedd, fel y banciau tywod yn yr harbwr.

**2.4** Mae'r Trelar Cwch a Thipiwr yn barod am ei wasanaeth blynyddol, ac ni chanfuwyd unrhyw ddiffygion y tymor diwethaf. Bydd yr holl drelars a ddefnyddir gan Staff yr Harbwr yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

**2.5** Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn bowser dŵr a chyfarpar golchi jet ar drelar i'w ddefnyddio ym mhob Harbwr, a fydd yn helpu i sicrhau bod y llithrfeydd a'r llwybrau cerdded, sy'n dueddol o gael eu gorchuddio â'r llanw, yn aros yn lân, yn rhydd o dyfiant algâu ac yn ddiogel i'w defnyddio.

**H3 Cynnal a Chadw**

**3.1** Mae gwaith cynnal a chadw ac archwilio parhaus o'r Harbwr yn cael ei gynnal bob wythnos gan swyddogion yr Harbwr. Mae unrhyw eitemau sydd angen sylw brys yn cael eu trin yn sydyn gan ychwanegu unrhyw eitemau eraill i'r cynllun gwaith dros y gaeaf. Bydd un o'n hysgolion mynediad yn cael eu newid gan gontractwr lleol cyn dechrau prif dymor yr Haf.

**3.2** Bydd y gwasanaeth yn rhoi diweddariadau am y pontŵn pan fyddant ar gael, mae'r Pontŵn yn ased gwych i'r "Harbwr", a diolchwn i'r Cyngor Tref, a phawb sy'n ymwneud â'r prosiect hwn.

**3.3** Mae staff yr harbwr wedi newid y trefniant angori trot yn Harbwr Abermaw. Rydym wedi tynnu dau drot o bob llinell o angorfeydd. Mae hyn oherwydd amlder y tywydd garw a bod yr angen am angorfeydd trot yn gostwng. Rydym hefyd wedi lleihau'r

nifer sydd ar gael, sy'n caniatáu mwy o le i gychod siglo ar yr angorfeydd hyn yn ystod tywydd garw, ac mae hefyd yn cynyddu'r lle ar gyfer angorfeydd siglo preifat.

**3.4** Bydd arwyddion cynradd ac eilaidd newydd y Bad Achub yn cael eu gosod yn Fairbourne i ddarparu gwybodaeth ddiogelwch i aelodau'r cyhoedd.

**3.5** Mae staff yr harbwr yn parhau i rifo bwiau angori i allu adnabod angorfeydd cwsmeriaid yn hawdd gan fod cychod newydd wedi cael eu hychwanegu yn yr harbwr.

**3.6** Mae staff yr harbwr wedi parhau i glirio eitemau diangen a sbwriel o'r compownd gan sicrhau bod yr ardal waith yn daclus ac yn ddiogel.

**3.7** Mae'r system TCC newydd a osodwyd ar ddechrau 2024 wedi bod yn ddefnyddiol iawn, gyda lluniau yn cael eu defnyddio i gynorthwyo mewn argyfwng.

**3.8** Mae'r Gwasanaeth wedi buddsoddi mewn rîl bibell Olew Nwy newydd ar gyfer y pwmp tanwydd yn Abermaw, oherwydd bod y rîl flaenorol wedi cyrraedd terfyn ei hoes.

**3.9** Gyda gwaith parhaus yn Viaduct Gardens gan YGC ac Alun Griffiths, mae'r gwasanaeth wedi gweld Rhwystrau Llifogydd newydd yn cael eu gosod ar y grisiau a'r llithrfeydd o amgylch yr harbwr.

**H4 Digwyddiadau**

**4.1** Mae gan Abermaw dymor haf llwyddiannus iawn gyda llu o wahanol ddigwyddiadau sy'n dod â llawer o dwristiaeth i'r dref. Roedd y llynedd yn llwyddiant ysgubol ac edrychwn ymlaen at groesawu'r holl ddigwyddiadau yn ôl eleni ac i groesawu digwyddiadau newydd os bydd rhai yn cael eu cynnig.

Gŵyl/Carnifal Abermaw
Gŵyl Fwyd
Gŵyl Farcud (I'w chadarnhau)
10k Barmouth Striders
Hwrli Bwrli
Moto X
'Rideout' Clwb Jetski Bae Colwyn
Gŵyl Gerdded
Coelcerth/Tân Gwyllt

**4.2** Mae'r Gwasanaeth am gynghori trefnwyr digwyddiadau arfaethedig o'r angen i hysbysu swyddfa'r harbwr yn gynnar. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd asesu'r holl brotocolau diogelwch a phrosesau gweinyddol cyn digwyddiad. Ni chaniateir cynnal digwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi'i dderbyn.

**Materion Eraill**

1. Mae'r Gwasanaeth wedi cael tymor calonogol arall gyda llawer mwy o ymholiadau ynghylch angorfeydd yn yr Harbwr, felly rydym yn gobeithio gweld mwy o gychod yn ymuno â'n cymuned. Gwelsom gynnydd o 7% y llynedd ac rydym wedi gweld cynnydd arall eto eleni. Mae cychod ymweld hefyd wedi cynyddu'r llynedd, gan adrodd yn ôl i'r swyddfa bod croeso a chyfeillgarwch y gymuned a'r staff i'w ganmol, a byddant yn ôl gyda mwy o gychod. Mae'r newyddion hyn i'w groesawu i Abermaw ac i ymdrechion pawb sy'n gwneud y dref mor atyniadol.

2. Mae'r Gwasanaeth bellach wedi gosod Bin Gwastraff Porthladd ar Ffordd y Compownd, a fydd yn gwasanaethu holl gwsmeriaid yr harbwr ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.

| BARMOUTH HARBOUR | Financial Performance for the Period 1 April 2024 to 31 March 2025 - August 2024 Review | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | BUDGET FOR THE PERIOD 1/4/24 TO 31/3/25 | EXPENDITURE FORECASTED 1/4/24 TO 31/3/25 | OVER (UNDER) | August Review | Variance between August & Novemnber Reviews |
| Employees | 72,790 | 69,517 | (3,273) | *1,081* | *(4,354)* |
| Buildings | 12,730 | 15,267 | 2,537 | *378* | *2,158* |
| Transport | 950 | 1,772 | 822 | *29* | *793* |
| Supplies & Services | 11,770 | 29,323 | 17,553 | *6,968* | *10,585* |
| One - Off Expenditure - Financed from Reserves | 0 | 11,938 | 11,938 | *11,938* | *0* |
| **Total Expenditure** | **98,240** | **127,816** | **29,576** | ***20,394*** | ***9,182*** |
| Income | (40,730) | (43,834) | (3,104) | *(1,899)* | *(1,205)* |
| Contribution from Reserves Towa | 0 | (11,938) | (11,938) | *(11,938)* | *0* |
| **Total Net** | **57,510** | **72,044** | **14,534** | ***6,557*** | ***7,977*** |

| HARBWR ABERMAW | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2024 at 31 Mawrth 2025 - Adolygiad Awst 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB 1/4/24 at 31/3/25 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/24 at 31/3/25 | GOR (TAN) | Adolygiad Awst | Gwahanaieth Rhwng Adroddiad Awst ac Adroddiad Tachwedd |
| Gweithwyr | 72,790 | 69,517 | (3,273) | *1,081* | *(4,354)* |
| Eiddo | 12,730 | 15,267 | 2,537 | *378* | *2,158* |
| Trafnidiaeth | 950 | 1,772 | 822 | *29* | *793* |
| Gwasanethau a Chyflenwadau | 11,770 | 29,323 | 17,553 | *6,968* | *10,585* |
| Gwariant Un Tro - Ariannu o Cronfeydd yr Adran | | 11,938 | 11,938 | *11,938* | *0* |
| **Cyfanswm Gwariant** | 98,240 | 127,816 | 29,576 | *20,394* | *9,182* |
| Incwm | (40,730) | (43,834) | (3,104) | *(1,899)* | *(1,205)* |
| Cyfraniad o Cronfeydd Tuag at Wariant Un Tro | 0 | (11,938) | (11,938) | *(11,938)* | *0* |
| **Cyfanswm Net** | **57,510** | **72,044** | **14,534** | ***6,557*** | ***7,977*** |